

BYDDWN YN/ WE WILL:

- **Nodi, monitro a rheoli ein heffeithiau amgylcheddol**
Identify, monitor and manage our environmental impacts
- **Gweithio i leihau effeithiau amgylcheddol ein gweithgareddau o ddydd i ddydd**
Work to minimise the environmental impacts of our day-to-day activities
- **Defnyddio adnoddau'n effeithlon a gweithio i leihau'r gwastraff a gynhyrchir**
Use resources efficiently and work to minimise waste generation
- **Prynu nwyddau gan gyflenwyr sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n moeseg**
Purchase goods from suppliers that are aligned to our vision, values & ethics



BYDDWN YN/ WE WILL:

- Addysgu ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid i godi ymwybyddiaeth o effeithiau amgylcheddol a'u grymuso i leihau eu heffeithiau
Educate our colleagues and patrons to raise awareness of environmental impacts and empower them to minimise their impacts
- Hyrwyddo diwylliant sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r amgylchedd a'r economi gylchol
Promote a culture that prioritises environmental protection and the circular economy
- Bod yn aelod gweithgar o'n cymuned leol a bod yn rhan o wella'r ardal leol drwy annog cynaliadwyedd
Be an active member of our local community and be involved in improving the local area by encouraging sustainability
- Adolygu ein gweithgareddau yn rheolaidd i nodi cyfleoedd gwella
Regularly review our activities to identify improvement opportunities



Mae Y Tŷ Gwyrdd yn ganolbwynt cymunedol llawr gwlad yn Ninbych, Gogledd Cymru, sy'n cynnig gofod cynhwysol a chroesawgar i'r gymuned leol. Ein prif ffocws yw dathlu a hyrwyddo'r bobl a'r mentrau ysbrydoledig yn ein tref a'r cyffiniau, tra'n helpu i leihau effaith y gymuned ar yr amgylchedd. Drwy ein siop ail-lenwi, rydym yn cynnig opsiynau diwastraff fforddiadwy a hygyrch a chyfleoedd sy'n helpu i hwyluso economi gylchol.

Y Tŷ Gwyrdd is a grassroots community hub located in Denbigh, North Wales, that offers an inclusive and welcoming space for the local community. Our primary focus is to celebrate and promote the inspiring people and enterprises within our town and the surrounding area, whilst helping to reduce the community's impact on the environment. Through our re-fill shop, we offer affordable and accessible zero-waste options and opportunities that help facilitate a circular economy.

Mae Y Tŷ Gwyrdd yn cydnabod bod ein gweithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd ac yn cyfrannu at newid hinsawdd. Yng ngoleuni hyn, byddwn yn mabwysiadu'r Cod Eco hwn er mwyn sefydlu ein hamcanion strategol o ran rheolaeth amgylcheddol ac i amlygu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i gymryd cyfrifoldeb am ein heffaith amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd ymhellach.

Y Tŷ Gwyrdd acknowledges that our activities have an impact on the environment and contribute to climate change. In light of this, we will adopt this Eco-Code in order to establish our strategic objectives regarding environmental management and to highlight the actions we will complete to take responsibility for our environmental impact and further promote sustainability.

Paratowyd y ddogfen hon gyda chefnogaeth gan brosiect Busnes Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ddarparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

This document has been prepared with support from the social Business Wales project. Social Business Wales is funded by the European Regional Development Fund and Welsh Government. It is delivered by the Wales Co-operative Centre and is part of the Business Wales service.

Busnes Cymdeithasol Cymru Social Business Wales

[/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol](http://busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol)
[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales](http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales)



Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

**Busnes | Business
Cymru | Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**